# Rhestr Termau

Mae gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron a nodir isod.

Os bydd unrhyw anghysondeb neu wrthdaro rhwng unrhyw un o'r geiriau a'r ymadroddion a nodir isod a'r rhai sy'n ymddangos yn y cytundeb Dyfarnu, y cytundeb Dyfarnu fydd yn drech.

### Achrediad

Y broses a ddefnyddir gan reoleiddwyr i gadarnhau bod cymhwyster yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

### Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr

Adroddiadau a ddefnyddir i ffurfio categorïau perfformiad cyffredinol ar gyfer pob darparydd. Mae'r rhain yn seiliedig ar fesurau perfformiad cytunedig o lwyddiant y Fframwaith Prentisiaethau. Mae Medr yn cadw'r hawl i newid y mesurau hyn ac/neu ychwanegu mesurau perfformiad eraill. Pan fydd rhaglen wedi'i chategoreiddio fel un sy'n llai na 'dda' mewn Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr, bydd Medr yn gofyn i'r contractwr ddangos bod camau gweithredu ar waith i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol a gall gychwyn terfynu'r Cytundeb ac unrhyw Ddyfarniadau Grant os nad yw perfformiad yn gwella.

### Ail-ymgeisydd

Rhywun sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen brentisiaethau o'r blaen, sy'n gymwys i ddysgu, ac sy'n ailymuno â'r ddarpariaeth.

### Anabledd/Anabl

Mae'r Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disgrifio person ag anabledd fel rhywun sydd 'amhariad nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol, o ddydd i ddydd'. Mae canllawiau ar y dyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i sefydliadau o ran hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas ag anabledd, a'r nodweddion gwarchodedig eraill fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ar gael yn [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Canllawiau a chyngor].

### Anghenion Dysgu

Anghenion dysgwr fel y'u nodwyd drwy'r prosesau asesu cychwynnol a pharhaus

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ystyr ADY yw'r ystyr a roddir yn Adran 2 o [Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018]. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n golygu bod angen darpariaeth dysgu ychwanegol. Gall anhawster neu anabledd dysgu ddeillio o gyflwr meddygol neu fel arall.

### Asesu

Y broses o bennu sgiliau generig a galwedigaethol gan gynnwys dawn ac ymrwymiad i ddysgu; dyma'r broses o gasglu a ffurfio barn ar dystiolaeth er mwyn penderfynu a yw

rhywun wedi cyflawni safon neu amcan. Mae asesu’n cynnwys mewnbwn gan y dysgwr, y cyflogwr, yr hyfforddwr, y mentor a'r asesydd, a bwriedir iddo osod safonau: (Safonau mewn Cymwyseddau, Gwybodaeth Dechnegol, Sgiliau Hanfodol Cymru).

### Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)

Mae QAA yn gweithio'n agos gyda darparwyr addysg uwch ac amrywiaeth o sefydliadau eraill fel Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a Phrifysgolion Cymru, i gefnogi ac adolygu rheolaeth ar safonau ac ansawdd academaidd.

### Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Yr

Mae HESA yn gweithio ar ran darparwyr AU yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol i ddarparu gwybodaeth i'r cyrff cyllido a rheoleiddio ym mhob gweinyddiaeth.

### Awdurdod Ardystio

Sefydliad wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Tystysgrifau Prentisiaeth.

### Blwyddyn academaidd

Medi – Awst.

### Blwyddyn ariannol

Ebrill – Mawrth.

### Blwyddyn ysgol

Medi – Awst.

### Buddsoddiad Ychwanegol

Bydd darparwyr yn gallu defnyddio'r buddsoddiad hwn i gael gwared ar rwystrau i ddysgu neu i fuddsoddi mewn adnoddau Cymraeg, neu ddeunyddiau arloesol i gyflwyno’r Gymraeg i ddysgwyr.

Mae'r meysydd i'w cefnogi drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cynnwys y blaenoriaethau isod, ymhlith eraill:

- Cyfrwng Cymraeg
- Cefnogi dysgwyr o grwpiau wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys rhai o grwpiau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol
- Cefnogi dysgwyr anabl a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig
- Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol
- Mentora ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr

### Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh)

Ceir sawl diffiniad o Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghyfraith Cwmnïau'r DU a chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd. Ceir hyd i grynodeb o'r diffiniadau cyfredol a phriodol mewn perthynas â'r rhaglenni hyn ar Wefan yr Archifau Cenedlaethol.

### Cerdyn y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS)

Cerdyn adnabod a ddefnyddir ar safleoedd adeiladu yn y DU i brofi bod gan weithiwr yr hyfforddiant, y cymwysterau a'r wybodaeth iechyd a diogelwch sy'n ofynnol ar gyfer ei rôl yw cerdyn CSCS. Mae'n ofynnol gan lawer o gyflogwyr er mwyn cael mynediad i safleoedd a chydymffurfio â gofynion diogelwch.

### CGCW

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

### Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Y dull o gofnodi data ar ddysgwyr, eu rhaglenni, eu gweithgareddau a'u dyfarniadau a gyflwynir gan y Darparwyr i Lywodraeth Cymru. Mae data'r LLWR yn llenwi'r gronfa ddata ôl-16, a ddefnyddir i lywio cyllid, dadansoddiadau o berfformiad, cyhoeddiadau ystadegol a dyfyniadau a ddarperir i gyrff fel Estyn.

Am ragor o wybodaeth, gweler: Llywodraeth Cymru: Casgliadau data addysg bellach ac uwch.

### Cofrestru

Y broses o gofrestru dysgwr gyda chorff dyfarnu fel un sydd wedi dechrau gweithio tuag at gwblhau cymhwyster.

### Consortiwm

Grŵp o sefydliadau sy'n dod at ei gilydd i gyflwyno Prentisiaethau. Mater i bob consortiwm yw cytuno ar ei gyfansoddiad ei hun.

### Corff Dyfarnu

Sefydliad a gydnabyddir gan reoleiddwyr y cymhwyster yn erbyn yr Amodau Cyffredinol ar gyfer Cydnabod a'r Meini Prawf ar gyfer Cydnabod, i ddatblygu a dyfarnu cymwysterau. Yng Nghymru, Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr cymwysterau.

### Credyd

Dyfarniad a roddir i ddysgwr fel cydnabyddiaeth am gyflawni deilliannau dysgu penodol ar lefel benodedig. Ni ddyfernir credyd ond ar ôl cynnal asesiad sicrhau ansawdd o gyflawniad. Ni ellir dyfarnu unrhyw gredyd ychwanegol am gyflawni uwchlaw'r lefel trothwy (a sefydlir drwy'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu) er y gellir cydnabod cyflawniad o'r fath drwy ddyfarnu marciau neu raddau. Ni ddylid dyfarnu credyd am unedau lle nad yw'r deilliannau dysgu wedi'u cyflawni.

### Cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY)

Cronfa sy'n darparu cyllid ychwanegol i hwyluso'r CDY sydd ei angen ar rai dysgwyr i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad i ddysgu a hyfforddiant. Dylai darparwyr ddefnyddio cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol i ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Gellir defnyddio cyllid CDY i dalu am gymorth dynol neu dechnegol.

### Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (CBM)

Sefydliad di-elw sy'n eiddo i'r llywodraeth yw'r CBM. Mae'n gweinyddu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr mewn colegau a phrifysgolion yn y DU.

### Cydnabod Dysgu Blaenorol

Y broses o asesu ac achredu dysgu a phrofiad blaenorol y dysgwr mewn perthynas â'r nodau dysgu a'r cymwysterau sydd i'w dilyn yn y Cynllun Dysgu Unigol.

### Cydnabyddiaeth o Gyflawniad Blaenorol
Y broses o asesu ac achredu cyflawniad blaenorol y dysgwr mewn perthynas â'r nodau dysgu a'r cymwysterau sydd i'w dilyn yn y Cynllun Dysgu Unigol.

### Cyflogadwyedd
Sgiliau, ymddygiadau a rhinweddau personol a fyddai'n gwneud unigolyn yn fwy tebygol o gael a chynnal cyflogaeth.

### Cyflogedig/Cyflogaeth
Yn berthnasol i ddysgwr sydd mewn cyflogaeth, naill ai'n llawn amser neu'n rhan-amser, yn rhan o gontract cyflogaeth, ac sy'n derbyn cyflog. Gweler hefyd 'Hunangyflogaeth'.

### Cymhwyster Cymeradwy
Cymhwyster a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru sy'n gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus ac y gellir ei gyllido o dan Adran 99 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i ddibenion Adran 96.

### Cymhwyster Rheoleiddiedig
Cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn swyddogol ac y mae ei ansawdd wedi'i sicrhau gan gorff rheoleiddio, gan sicrhau ei fod yn bodloni safonau a gofynion cytunedig.

### Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY)
Cymorth dysgu uniongyrchol ar gyfer dysgu sy'n deillio o ADY yw'r hyn a gynigir yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir fel arfer mewn rhaglen ddysgu; ac mae'n angenrheidiol er mwyn galluogi dysgwyr unigol i gyflawni. Nid yw'r diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys dysgwyr ag anghenion cymorth sy'n deillio o anhawster llythrennedd neu rifedd gweithredol (h.y. Sgiliau Sylfaenol/Hanfodol) neu ddysgwyr y mae Saesneg (neu'r Gymraeg) yn ail iaith iddynt.

### Cymwys
Unigolyn sy'n bodloni gofynion cymhwystra rhaglen, yn unol â'r manylion yn y canllaw.

### Cymwyseddau
Y gallu i gyflawni gweithgareddau yn unol â'r safonau gofynnol.

### Cynllun Datblygu Unigol
Y cynllun statudol ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ystyr Cynllun Datblygu Unigol yw'r ystyr a roddir yn adran 10 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'n ddogfen gyfreithiol sy'n disgrifio anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc ac yn nodi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY) sy'n ofynnol i fodloni'r anghenion hynny. Mae Cynlluniau Datblygu Unigol yn sail i'r system ADY yng Nghymru ac yn disodli cynlluniau AAA statudol ac anstatudol blaenorol, gan gynnwys Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig, Cynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau.

### Cynllun Dysgu Unigol
Cynllun dysgu a datblygu pwrpasol sy'n unigryw i bob dysgwr unigol.

### Cyrhaeddiad
Cyflawni'r cymhwyster neu'r dyfarniad sy'n gysylltiedig â gweithgaredd dysgu y gellir ei asesu.

### Cytundeb Dysgu Prentisiaeth
Cytundeb rhwng y cyflogwr a'r prentis a ragnodir gan Medr. Rhaid i bob prentis gael cytundeb dysgu prentisiaeth ar waith ar ddiwrnod cyntaf yr hyfforddiant neu cyn hynny.

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY)
Ystyr DDY yw'r ystyr a roddir yn Adran 3 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac mae'n cyfeirio at ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n wahanol i, neu'n ychwanegol at yr hyn sydd fel arfer ar gael i eraill o'r un oedran.

### Dechrau
Yr adeg pan fydd dysgwr yn dechrau dysgu yn fras.

### Deilliant
Dyfarnu cymhwyster cymeradwy gan gorff dyfarnu a/neu ddeilliannau eraill fel y'u diffinnir gan Medr.

### Dyddiad Dechrau
Y diwrnod dysgu cyntaf.

### Dyddiad Gadael yr Ysgol
Y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd unigolyn ifanc yn troi'n 16 oed. O dan adran 8 (4) o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i bob person ifanc gymryd rhan mewn addysg hyd at y dyddiad hwn. Ni chaiff darparwyr ddarparu'r rhaglen brentisiaethau i bobl ifanc yn ystod blwyddyn ysgol 11, ac ni chaiff y bobl ifanc hyn ychwaith ddechrau cyflogaeth amser llawn tan ar ôl y dyddiad hwn. (Gweler hefyd Oedran Ysgol Orfodol uchod).

### Dyddiad terfynu
Y diwrnod dysgu olaf y ceir tystiolaeth ar ei gyfer, fel sy'n ofynnol yn y Canllawiau i gefnogi Cyllid ar gyfer Prentisiaeth. Gall olygu'r cyntaf i ddigwydd o blith y canlynol:

- y dyddiad pan mae'r dysgwr yn cwblhau ei Gynllun Dysgu Unigol
- y dyddiad pan fydd cyfnod dysgwr ar raglen yn cael ei derfynu oherwydd camymddwyn
- y dyddiad pan mae'r dysgwr wedi dewis gadael
- pan nad yw dysgwr yn dychwelyd i ddysgu yn dilyn cyfnod o egwyl
- y dyddiad presenoldeb olaf lle ceir tystiolaeth bod dysgwr yn dysgu cyn egwyl yn dilyn absenoldeb anawdurdodedig; neu'r
- dyddiad olaf o absenoldeb awdurdodedig cyn yr egwyl.

### Dyddiad Ymadael Disgwyliedig (DYD)
Dylai hyn gynrychioli dyddiad gorffen disgwyliedig cynllun dysgu unigol y dysgwr.

### Dyfarniad
Yn cyfeirio at ddyfarniad cymhwyster.

### Dysgu
Proses o weithgareddau wedi'u cynllunio y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw, sydd wedi'u cynllunio'n benodol er mwyn caffael yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n angenrheidiol i symud ymlaen tuag at gyflawni eu Cynllun Dysgu Unigol.

### Dysgu Galwedigaethol
Dysgu gyflawnir er mwyn datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith e.e. Peirianneg neu Adeiladu.

### Dysgu Llawnamser
Y diffiniad o ddysgu llawnamser yw treulio cyfartaledd o fwy na 12 awr yr wythnos mewn addysg yn ystod y tymor.

### Dysgu Pellach ar Lefel Uwch
Dilyniant i raglen ddysgu ar lefel uwch. https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean.

### Dysgwr
Person cymwys sydd wedi dechrau Dysgu ac nad yw ei ddysgu wedi'i gwblhau na'i derfynu. Bydd cyn-ddysgwr y mae ei ddysgu wedi'i derfynu hefyd yn cael ei alw'n ddysgwr wrth drafod y cwrs yr oedd arno ac a derfynwyd.

### Egwyl
Pan fydd dysgwr yn cael ei gadw ar raglen ddysgu er bod y dysgu wedi peidio neu nad oes modd dangos tystiolaeth ohono. Gweler y canllawiau am y meini prawf penodol ar gyfer egwyl.

### Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

### Fframwaith Ansawdd
Fframwaith Medr ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.

### Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)
Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer yr holl ddarpariaeth dysgu yng Nghymru, gan gynnwys Dysgu Rheoleiddiedig mewn Ysgolion, Colegau a Dysgu yn y Gwaith, Dysgu Gydol Oes â Sicrwydd Ansawdd a darparwyr Addysg Uwch.

Am ragor o wybodaeth, gweler Llywodraeth Cymru: Cymwysterau.

### Fframweithiau Prentisiaeth i Gymru
Y fframweithiau hynny sy'n cydymffurfio â Manyleb Safonau Prentisiaeth Cymru (SASW) ac sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Cyhoeddi ar gyfer Cymru.

Ceir hyd i bob fframwaith a gyhoeddwyd yng Nghymru yn Dod o hyd i Fframwaith Prentisiaeth.

### Fframwaith rheoleiddio
Yn nodi'r Amodau Cofrestru a Chyllido y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni. Yr amodau hyn yw'r gofynion craidd ar gyfer cydymffurfio ac maent yn berthnasol ar draws y sector.

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
Grant i fyfyrwyr 19 oed neu hŷn sy'n astudio cwrs Addysg Bellach yn y coleg.

### Grwpiau wedi'u tangynrychioli
Tangynrychiolaeth oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

### Gweithgaredd
Profiad dysgu sy'n gymwys i dderbyn cyllid yn unol â gofynion y rhaglen brentisiaethau.

### Hunangyflogaeth
Mae rhywun yn hunangyflogedig os yw'n rhedeg ei fusnes drosto'i hun ac yn cymryd cyfrifoldeb dros lwyddiant neu fethiant y busnes hwnnw. Nid yw gweithwyr hunangyflogedig yn derbyn cyflog drwy PAYE, ac nid oes ganddynt hawliau na chyfrifoldebau cyflogai. Maent yn gweithredu'n annibynnol, yn aml fel gweithwyr llawrydd, contractwyr annibynnol, unig fasnachwyr neu aelodau o bartneriaeth.

### Hyfforddiant
Gweler Dysgu.

### Hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith
Amser i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol. Gall gynnwys unrhyw weithgaredd lle mae prentis neu ddysgwr yn derbyn unrhyw fath o gyfarwyddyd, hyfforddiant, asesiad, neu adolygiadau cynnydd.

Er enghraifft, gall astudiaeth breifat, hyfforddiant, mentora, e-ddysgu, dysgu o bell, neu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth gyfrif fel hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, ymhlith eraill.

### Hyfforddiant yn y gwaith
Gweithgaredd yn y gweithle lle mae sgiliau'n cael eu dysgu, eu hymarfer a'u cymhwyso yn ystod dyletswyddau gwaith arferol y prentis neu'r dysgwr.

### Is-gontractwr
Sefydliad neu fusnes sy'n llofnodi contract i gyflawni rhwymedigaethau Cytundeb rhywun arall, yn rhannol neu'n llwyr. Deiliad y Dyfarniad Grant sy'n gyfrifol am yr is-gontractwr.

### Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (MSPC)
Deddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid i Fframweithiau Prentisiaeth Cymru cydnabyddedig eu bodloni.

### Microgymwysterau
Cyrsiau byr a chymwysterau sy'n canolbwyntio ar gymwyseddau galwedigaethol allweddol sy'n gysylltiedig ag agenda Sero Net Cymru.  Mae'r rhain yn ychwanegol at ofynion y Fframwaith Prentisiaethau.

## Nodweddion Gwarchodedig

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu unigolion rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn seiliedig ar nodweddion personol penodol a elwir yn **nodweddion gwarchodedig**. Mewn llawer o sefyllfaoedd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, tai, a darparu nwyddau a gwasanaethau, mae'n anghyfreithlon trin rhywun yn annheg oherwydd un o'r nodweddion hyn. Gweler Deddf Cydraddoldeb 2010: canllawiau; Nodweddion Gwarchodedig; Gwahaniaethu: eich hawliau.

Y Naw Nodwedd Warchodedig

- Oedran - Diogelu rhag gwahaniaethu oherwydd oedran neu grŵp oedran yr unigolyn. Mae hyn yn berthnasol i bobl iau a phobl hŷn fel ei gilydd.
- Anabledd - Ystyrir bod rhywun yn anabl os oes ganddo amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.
- Ailbennu Rhywedd - Diogelu unigolion sy'n bwriadu mynd/sydd yn mynd/sydd wedi bod drwy broses i ailbennu eu rhyw.
- Priodas a Phartneriaeth Sifil - Diogelu rhag gwahaniaethu gan fod rhywun yn briod neu mewn partneriaeth sifil.
- Beichiogrwydd a Mamolaeth - Diogelu menywod sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu a roddodd enedigaeth yn ddiweddar.
- Hil - Yn diogelu rhag gwahaniaethu ar sail lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol.
- Crefydd neu Gred - Diogelu pobl o unrhyw grefydd, cred grefyddol, cred athronyddol, neu ddim cred o gwbl.
- Rhyw - Diogelu rhag gwahaniaethu oherwydd bod person yn ddyn neu'n fenyw.
- Cyfeiriadedd Rhywiol - Diogelu unigolion ar sail eu hatyniad rhywiol tuag at bobl o'r un rhyw, y rhyw arall, neu'r ddau ryw.

## Oedran ysgol gorfodol

Oedran ysgol gorfodol yw'r cyfnod pan mae'n rhaid i blentyn dderbyn addysg amser llawn yn yr ysgol neu fel arall, gan ddechrau gyda'r Oedran Ysgol Statudol a gorffen ar Ddyddiad Statudol Gadael yr Ysgol.

Bydd rhywun yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol ar ddiwedd y dydd ar ddyddiad gadael yr ysgol yn y flwyddyn galendr dan sylw. Dyma ddydd Gwener olaf mis Mehefin, o'r flwyddyn ysgol pan fydd y dysgwr yn troi'n 16 oed. Bydd y rhai sy'n cael eu penblwydd ar ôl dydd Gwener olaf mis Mehefin ond cyn 1 Medi, yn cyrraedd y Dyddiad Statudol Gadael yr Ysgol yn 15 oed.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs)

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wrth wraidd Polisi Sgiliau Llywodraeth Cymru, a'u rôl yw nodi pa sgiliau allweddol sy'n brin ar draws rhanbarthau Cymru. Bydd pob un o'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn datblygu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol ac yn cwblhau templedi cyllido i lywio blaenoriaethau wrth ddarparu cyllid. Mae cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol yn llywio penderfyniadau cynllunio darparwyr ac yn creu sylfaen dystiolaeth hollbwysig wrth benderfynu ynghylch buddsoddi mewn sgiliau.

## Prentisiaeth

*Swydd gyflogedig gyda hyfforddiant yw prentisiaeth Gymreig. Bydd prentisiaid yn ennill cyflog, yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd, ac yn ennill cymwysterau a*

*chymwyseddau a gydnabyddir gan y diwydiant (o lefel 2 hyd at lefel gradd). Diffinnir y dysgu drwy Fframwaith Prentisiaeth."*

### Prentisiaethau â Chymorth

Yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i brentisiaid ag anghenion cyflogaeth a dysgu cymhleth, gan eu galluogi i gwblhau eu prentisiaeth yn llwyddiannus. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar y Canllaw i Brentisiaethau â Chymorth.

### Prentisiaethau gradd

Rhaglen integredig o ddysgu a hyfforddiant yw prentisiaethau gradd sy'n arwain at gymhwyster lefel gradd a phrentisiaeth sy'n dangos yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau perthnasol y mae cyflogwyr yng Nghymru yn eu cydnabod ac yn rhoi gwerth arnynt. Mae Prentisiaethau Gradd yng Nghymru felly'n cynnwys cymhwyster gradd baglor integredig yn rhan o ofynion Fframwaith Prentisiaeth.

### Preswylio'n Arferol

Yn gyffredinol, mae'n golygu'r lle y mae rhywun yn byw ynddo fel arfer yn ystod eu bywyd o ddydd i ddydd, p'un a ydynt yn preswylio yno am y tymor byr neu'r tymor hir. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy hunanddatganiad dilys a dyddiedig gan y cyfranogwr yn nodi ei gyfeiriad presennol (a lle bo gofyniad tair blynedd) ei gyfeiriadau dros y tair blynedd diwethaf. Rhaid i'r preswylio fod yn gyfreithlon ac mae hyn yn gyffredinol yn golygu bod yn rhaid i'r person gael caniatâd mewnfudo i fod yn y wlad honno a rhaid iddo beidio â bod yn y carchar. Gellir anwybyddu absenoldebau dros dro (fel blynyddoedd i ffwrdd), a gall rhywun fod yn preswylio'n arferol mewn mwy nag un wlad ar yr un pryd. Gweler y canllaw am ragor o wybodaeth.

### Proffilio Galwedigaethol

Proses sy'n canolbwyntio ar y person a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth fanwl am gryfderau, diddordebau, dyheadau ac anghenion cymorth yr unigolyn i'w dywys tuag at brentisiaeth addas.

### Rhaglen Astudio

Cyfres o weithgareddau a wneir gan ddysgwr i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Dysgu Unigol. Dylid cofnodi rhaglen astudio dysgwr yn y Cynllun Dysgu Unigol ac adolygu cynnydd yn erbyn nodau yn rheolaidd.

### Rhannu Data

Rhannu data rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid. Wrth rannu unrhyw ddata personol rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data'r DU, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), a Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Ceir hyd i wybodaeth bellach ar wefan y [Comisiynydd Gwybodaeth](https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/). https://ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/.

### Rhannu Prentisiaethau

Model Prentisiaeth a Rennir yw sefyllfa lle bydd prentisiaid yn cael eu cyflogi gan sefydliad cyflogi sy'n gyfrifol am recriwtio, cyflogaeth a llesiant y prentis sy'n cwblhau ei brentisiaeth gyda chyflogwyr cynnal sy'n cynnig y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sy'n ofynnol er mwyn cwblhau Fframwaith Prentisiaeth.

## Rhwystrau

Rhwystr yw sefyllfa sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud cynnydd neu gyflawni amcan. Rhwystr i ddysgu yw unrhyw beth sy'n atal unigolyn rhag gallu cymryd rhan yn y broses ddysgu, cyflawni ei amcanion a gwneud cynnydd ar hyd llwybr o'i ddewis.

## Sefydliad Troseddol

Grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd dros gyfnod o amser i gyflawni troseddau, yn aml er budd ariannol neu fudd arall.

## Sgiliau Gyrfa

Rhaglenni dysgu wedi'u teilwra sy'n cynnwys modiwlau neu unedau byr sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth, yr ymddygiadau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Gall y rhaglenni hyn ganolbwyntio ar gyflogadwyedd, datblygu gyrfa a sgiliau penodol i'r sector sy'n gwella effeithiolrwydd yn y gweithle ac yn cefnogi dilyniant i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Mae pob modiwl neu uned wedi'i gymeradwyo gan sefydliad dyfarnu cydnabyddedig.

## Sgiliau Hanfodol

Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am gymhwyso rhif, cyfathrebu, a sgiliau llythrennedd digidol. Mae'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn helpu dysgwyr i ddangos y gallant gymhwyso'r sgiliau hyn i amrywiaeth o sefyllfaoedd yn y gwaith a thrwy gydol eu bywyd yn gyffredinol.

## Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol wedi'u dylunio i asesu'r sgiliau y mae ar ddysgwyr eu hangen er mwyn llwyddo wrth ddysgu, mewn swydd ac mewn bywyd. Mae Sgiliau Hanfodol yn darparu un ysgol ddilyniant o Lefel Mynediad 1 i Lefel 3 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol, Cymhwyso Rhif Hanfodol a Llythrennedd Digidol.

## Taliad Sefydlu

Y taliad a wneir o ganlyniad i ddata a gyflwynir i'r LLWR drwy'r system casglu data ar-lein ynghylch dysgwr cymwys sydd wedi dechrau rhaglen ddysgu (h.y. dechreuwr). Gweler y canllawiau prentisiaeth am ragor o wybodaeth.

## Telerau ac Amodau Dysgu

Yn cwmpasu pob agwedd ar berthynas dysgwr â darparydd fel y manylir yn y canllawiau.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybod am eu Telerau ac Amodau Dysgu ar ddechrau unrhyw ddarpariaeth neu ar unrhyw adeg y bydd amodau'r ddarpariaeth yn newid.

Mae'r Telerau ac Amodau Hanfodol yn cynnwys:

- manylion y lleoliad(au) dysgu
- oriau presenoldeb gofynnol
- manylion cyflog
- polisi salwch ac absenoldeb
- cod ymddygiad, gan gynnwys cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a llesiant, ymhlith agweddau eraill
- hawliau, rolau a chyfrifoldebau dysgwyr
- polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth

- cyfnodau rhybudd wrth ddiswyddo
- hawl i wyliau.

### Trosglwyddo
Bwriad i symud dysgwr o fewn yr un rhaglen i Ddarparydd arall, cyn cwblhau'r Cynllun Dysgu Unigol. Dylai darparwyr geisio sicrhau bod cyn lleied â phosib o aflonyddwch i wasanaethau dysgu a chymorth wrth drosglwyddo. Er mwyn hwyluso trosglwyddiad effeithiol, dylai darparwyr gael gweithdrefnau a phrosesau i ymdrin â throsglwyddiadau, sydd o leiaf yn ceisio rhannu neu gael:
- Cofnodion Asesu Cychwynnol
- Cynllun Dysgu Unigol
- cynnydd tuag at y Cynllun Dysgu Unigol
- cofnodion asesu
- unrhyw gymwysterau a enillwyd
- gwybodaeth sy'n ymwneud â gofynion cymorth.

### Trydydd Parti
Gall hyn gynnwys Is-gontractwr neu bartner allanol nad oes ganddo gontract uniongyrchol â Medr.

### Trydydd Sector, Y
Cwmpas y gweithgarwch cymdeithasol a gyflawnir gan sefydliadau dielw ac anllywodraethol.

### Tystysgrif
Cofnod o fod wedi ennill cymhwyster, uned ac/neu gredyd, a gyhoeddir gan sefydliad dyfarnu.

### Tystysgrif Prentisiaeth
Tystysgrif a gyflwynir i ddysgwr ar ôl cwblhau dysgu i ardystio bod yr holl ofynion a bennir yn y Fframwaith Prentisiaeth cydnabyddedig wedi'u bodloni.

### Unedau Medr
Dyma 'faint y dysgu' y gellir ei ariannu a bennwyd ar gyfer cymwysterau a/neu sgiliau cymhwysedd galwedigaethol. Mae'n ymgorffori gwerth uned credyd cyfwerth (CEU) cymhwyster a phwysoliad fframwaith y sector prentisiaeth.

### Wedi'i ennill
Y dyddiad pan bennir cyrhaeddiad neu pan gyflawnir cymhwyster cymeradwy. Fel arfer, dyma'r dyddiad pan gyhoeddir tystysgrif neu unrhyw dystiolaeth dderbyniol arall yn gyntaf.

### Ymadawr
Dysgwr sydd wedi cwblhau ei ddysgu gyda Darparydd neu sydd wedi gadael dysgu'n gynnar neu sydd wedi bod yn absennol o ddysgu am gyfnodau hirach na'r cyfnodau a ganiateir yn y canllawiau.

### Ysgol

Ysgol a weithredir o dan y Rheoliadau Ysgolion, ond i'r diben hwn, nid yw hyn yn cynnwys coleg trydyddol, coleg cymunedol na choleg addysg bellach.

### Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES)

Mae arolwg HESES yn casglu data cyfun myfyrwyr i alluogi Medr i gael syniad cynnar o niferoedd myfyrwyr, monitro cyfraddau recriwtio myfyrwyr y mae cynlluniau ffioedd a mynediad yn berthnasol iddynt, a darparu gwybodaeth fonitro i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol.